# CYNGOR CYMUNED *LLANWINIO* COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fawrth 17eg o Ionawr 2017 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.

**PRESENNOL:** Cyng P Walton, G Evans, J Phillips, W Evans, D Lewis, H James, J Lewis (CSC) a K Bowen (clerc).

**YMDDIHEURIADAU:** Cyng D Evans

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion cyfarfod 15fed o Dachwedd a derbyniwyd yn gywir.

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB:** Dim

**MATERION YN CODI:**

Gwnaeth y Gadair ddatgan ei bleser am y gallu i gynnal cyfarfodydd Cyngor Cymuned yn y Neuadd Gymunedol yn Llanwinio unwaith eto. Codwyd cwestiynau am sefyllfa gyfreithiol y Cyngor Cymuned a'r cefnogwyr eraill oedd wedi rhoddi cymorth ariannol tuag at bryniant y neuadd gan y Gymdeithas Gymunedol petai'r neuadd yn cael ei gwerthu yn y dyfodol. Cynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar bwyllgor y Gymdeithas Gymunedol i godi'r cwestiwn yng nghyfarfod nesaf y Gymdeithas Gymunedol.

**GOHEBIAETH:**

Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth CSC ynglyn a anghenion y Cyngor am braesept 2017/18. Yn dilyn trafodaeth hir fe wnaeth y Cyngor benderfynnu y dylai'r praesept cael ei gynyddu i £6000.00. Nid oedd cynnydd wedi bod yn y praesept ers 2012/13 ac roedd yr arian oedd gan y cyngor wrth gefn wedi lleihau efo pryniant y Neuadd Gymunedol.

Daeth gwybodaeth oddi wrth CSC am yr etholiadau Cynghorau Thref a Chymunedau oedd i'w cynnal ar dydd Iau Mai 4ydd 2017.

Hysbyswyd y Cyngor gan Llywodraeth Cymru taw £7.57 yr etholwr oedd y swm gwariant o dan Rhan 137 (4) (A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Gwnaeth CSC ddanfon gwahoddiad i gyfarfod yn Neuadd Meidrim i asesu'r galw am dai gwledig ar nos Lun 23/01/17. Esboniodd Cyng J Lewis (CSC) fod y broses asesu newydd ddechrau ac ei fod yn gyfle gwych i roddi ymlaen y galw lleol am dai. Penderfynwyd y byddai'r Cyng P Walton yn mynychu ar ran y Cyngor Cymuned.

Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Y Cardi bach am y rhodd oedd wedi ei ddanfon.

**DERBYNIADAU:**

| | |
|---|---|
| CSC – 3ydd rhandal o'r praesept | £1,333.33 |

**BILIAU:**

| | |
|---|---|
| Capel Ramoth, Cwmfelin Mynach – llogi'r festry | £60.00 |
| Swyddfa Archwilio Cymru– archwilio'r cyfrifon 2016 | £208.50 |
| SSE/Swalec – trydan i'r neuadd gymunedol Rhagfyr 2016 | £15.22 |

**CYNLLUNIO:** Dim

**PROSIECT HAWLIAU FFORDD LLANWINIO:**

Roedd adroddiadau arolwg wedi eu derbyn oddi wrth CSC ynglyn a'r rhestr o lwybrau oedd wedi eu dewis. Ar ol edrych ar y costau a sylwadau a oedd wedi eu cynnwys a chymryd rhai o sylwadau Ms Agoust yn ei llythyr o 04/01/17 i ystyriaeth, cytunwyd ar flaenoriaethau newydd.

Penderfynodd y Cyngor i dderbyn y deunydd a gynigwyd gan CSC oherwydd fyddai hyn yn galluogi'r Cyngor Cymuned i ddefnyddio'r adnoddau prin oedd ganddynt ar gyfer yr ymrwyniadau roeddent eisioes yn cefnogi. Fyddai hefyd yn galluogi rhai o'r llwybrau roedd o fewn perchnogaeth y Cyngor Cymuned i'w cael eu agor yn 2017 ac i rai o'r llwybrau eraill o fewn y plwyf cael eu agor yn gynt. Fyddai hefyd yn golygu na fyddai Cyngor Cymuned Llanwinio o dan anfantais mewn cymhariaeth efo cynghorau cymuned eraill o fewn Sir Gaerfyrddin.

Gofynwyd i'r clerc edrych i mewn i greu linc o wefan y Cyngor Cymuned i fap llwybrau CSC.

**U.F.A.**

Tynnwyd sylw at gyflwr gwael ochr yr heol yn agos i flwch gwyrdd BT o flaen y bont yng Nghwmfelin Mynach. Gan fod faniau BT yn aros yno yn gyson, y clerc i gysylltu a CSC i gael rhoddi cerrig mân i lawr.

Y clerc hefyd i gysylltu a CSC ynglyn a chyflwr gwael yr heol ar rhiw'Bwmper' a rhwng croesffordd Maesygrove a Cilsant, a gwneud cais i gael yr heol gefn o Blaenwaun i Gwmfelin Mynach ei ysgubo.

Gofynodd y clerc i'r Cyngor oeddent eisiau gwahodd Mr C Henry i ymgymryd a'r archwiliad mewnol am 2016/17. Clerc i gysylltu a Mr Henry.

Gan fod yna ddim rhagor o fusnes fe wnaeth y Gadair ddiolch i bawb oedd wedi mynychu a datganodd fod y cyfarfod ar gau.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar nos Fawrth 14eg o Fawrth 2017 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.**